Y cyfarfod rhagarweiniol gyda rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol a rheolwyr corfforaethol

Bydd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod hwn: y prif weithrewdwr, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y swyddog(ion) haen uchaf sydd â'r cyfrifoldeb dros swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, y swyddog cyswllt, y tîm cydadolygu, a'r cydgysylltydd cymorth ar gyfer yr adolygiad. Bydd y cyfarwyddwr fel arfer hefyd yn gwahodd uwch reolwyr eraill yn y gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion corfforaethol perthnasol a'r aelodau etholedig efo cyfrifoldeb am wasanaethau cymdeithasol.

Bydd y cyfarfod hwn yn cwmpasu:

- briffio cyffredinol ynghylch y broses gydadolygu a'r amserlen fras;
- cadarnhau aelodaeth y tîm cydadolygu;.
- cyfle i'r cyngor ddarlunio sefyllfa bresennol yr awdurdod a'r cyd-destun lleol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu o'i fewn (gwleidyddol, ariannol, sefydliadol) – gan dynnu sylw'r tîm cydadolygu at unrhyw faterion sydd o bwys allweddol;
- swyddogaethau a disgwyliadau'r amrywiol brif gyfranogwyr a rhanddeiliaid;
- adolygiad o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer gweddill y broses adolygu;
- trafodaeth ynghylch unrhyw faterion sy'n debygol o effeithio ar hynt yr adolygiad a chytuno ar ddyddiadau ar gyfer cerrig milltir;
- dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau i ddod, fel bo'n ofynnol.

Mae'r cyfarfod yn gyfle pwysig i'r tîm cydadolygu ddysgu mwy ynghylch yr awdurdod ac i gynllunio manylion gwaith pellach. Awgrymir agenda safonol ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol.

Agenda Enghreifftiol

1. Cyflwyniadau

2. Cydadolygiadau: egwyddorion, prosesau a phobl (yr adolygydd arweiniol)

3. Y cyd-destun lleol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol – perfformiad a sefyllfa bresennol yr awdurdod, gan gynnwys materion sensitif a chyfrinachol (prif weithredwr / cyfarwyddwr a'r tîm)

4. Trosolwg o amserlen y rhaglen (yr adolygydd arweiniol a'r cydgysylltydd cymorth ar gyfer yr adolygiad)

5. Diweddariad ar reoli'r cynllun prosiect ar gyfer y cydadolygiad (y swyddog cyswllt)

6. Cytuno ar y cerrig milltir

7. Cynnwys rhanddeiliaid eraill

8. Sut i hybu cynnwys defnyddwyr a gofalwyr ar wahanol gamau'r adolygiad

9. Swyddogaeth aelodau etholedig a rheolwyr corfforaethol

10. Cadarnhau swyddogaethau

11. Y camau nesaf

Disgwylir y bydd y cyfarfod yn parhau rhwng dwy a thair awr.